

Presennol:	Huw Jones John Davies Carol Bell Marian Wyn Jones Guto Harri Elan Closs Stephens	(Cadeirydd yr Awdurdod) (Prif Aelod Anweithredol yr Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones Elin Morris Gwyn Williams Rachel Evans Phil Williams Bethan C. Williams Steve Thomas Gwenllian Griffiths Garffild Lloyd Lewis Carys Evans	(Prif Weithredwr) (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) (Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymwneud) (Dirprwy Gyfarwyddwr Cynnwys a Darlledu) (Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod) (Ymgynghorydd Strategaeth a Pholisi) (eitem 5) (Cyfarwyddwr Partneriaethau) (eitem 5) (Cyfarwyddwr Adleoli a Phrosiectau) (eitem 6) (Pennaeth Dadansoddi) (eitem 10)
Ymddiheuriadau:	Hugh Hesketh Evans Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod) (Aelod o'r Awdurdod)

1. **Gair o groeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. **Cofnodion cyfarfod 400 (14.07.16) a Materion yn Codi**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 400 (a gynhaliwyd ar 14.07.16).

Yn dilyn rhai man newidiadau cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

Materion yn codi

Prosiect Loteri Cymru

Nodwyd fod swyddogion wedi trafod yr opsiwn i ymestyn cyfnod y cytundeb hawliau darlledu y tu hwnt i'r deng mlynedd gyntaf a bod y cwmni wedi cydsynio i'r cais.

Y Cytundeb Gwasanaethau Technegol (y TSA)

Esboniwyd fod trafodaethau'n parhau gyda'r BBC a bod bwriad i geisio cytuno ar gytundeb y TSA erbyn diwedd Hydref. Bwriedir cyflwyno diweddariad i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

iPlayer a phatrymau gwyllo ar-lein

[Crynodeb: Yn dilyn ymholiad rhoddwyd diweddariad ar ddatblygiadau'r iPlayer.]

3. Cofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau

Cyflwynwyd y Gofrestr Pwyntiau Gweithredu a Phenderfyniadau a gofynnwyd am ddiweddariad ar y materion canlynol.

Prosiect Loteri Cymru

Nodwyd bod angen diweddarau'r gofrestr gan nodi mai'r dyddiad cyflawni ar gyfer y cylch gorchwyl a'r gofrestr risg fydd Hydref 2016.

Porth Pobl Ifanc

Adroddwyd fod GW wedi cyfarfod gyda Rhodri ap Dyfrig a bod cynlluniau ar y gweill ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth ar-lein ar gyfer pobl ifanc.

Prosiectau'r Bwrdd Masnachol

[Crynodeb: Cafwyd diweddariad ar un o brosiectau'r Bwrdd. Roedd dau gynllun busnes yn cael eu datblygu ac fe fydd y Bwrdd Masnachol yn eu hystyried maes o law. Cyflwynir diweddariad ar y cynllun i'r awdurdod maes o law.]

4. Adroddiad y Cadeirydd

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

4.1 Cytundeb ariannol gyda'r BBC

Cyfeiriodd at y llythyr a dderbyniodd gan Rona Fairhead neithiwr a'i ymateb, gan nodi fod y llythyr yn cadarnhau nifer o faterion pwysig a oedd wedi eu cytuno gyda'r BBC yn ystod yr wythnos ddiwethaf.

[Crynodeb: Roedd y Cadeirydd yn falch i gyflwyno'r llythyron a'r cymalau perthnasol o'r Cytundeb Fframwaith yn ymwneud ag ariannu S4C o Ffi'r Drwydded hyd 2021/22, ac mewn egwyddor am weddill cyfnod y Siartr newydd hyd 2027/28. Bwriedir cynnwys manylion y cytundeb rhwng S4C a'r BBC mewn dogfen yn seiliedig ar y Cytundeb Gweithredu presennol maes o law.

Nodwyd fod hyn yn ganlyniad derbyniol iawn i'r trafodaethau a bod cael sicrwydd ariannol ar gyfer mwyafrif incwm corff cyhoeddus am gyfnod o 5 mlynedd yn yr hinsawdd bresennol yn sefyllfa gadarnhaol iawn.

Holwyd am drefniadau darpariaeth statudol 10 awr y BBC ar gyfer cyfnod y siartr nesaf. Esboniwyd fod y ddyletswydd i ddarparu'r 10 awr o raglenni yn ddyletswydd statudol ac nad oedd y Cytundeb Fframwaith yn gallu newid y ddyletswydd hon.

Esboniwyd fod DCMS yn bwriadu cyhoeddi'r Cytundeb Fframwaith a'r Siartr drafft wythnos nesaf. Roedd rhagor o drafod manylder y drafftio i'w gwblhau gyda DCMS a'r BBC cyn hynny er mwyn sicrhau geiriad derbynol i S4C yn y cytundeb.]

Cymeradwydd yr Awdurdod drefniant y 'read-across' oedd wedi ei gytuno gyda'r BBC ar gyfer cyfraniad Ffi'r Drwydded i S4C tan 2021/22.

Cymeradwywyd parhau i drafod manylion y berthynas newydd gyda'r BBC a DCMS gan anelu i lunio *heads of terms* neu fersiwn ddiwygiedig o'r Cytundeb Gweithredu ar gyfer ystyriaeth yr Awdurdod a Bwrdd Unedol arfaethedig y BBC.

4.2 **Tymor Aelodaeth Aelodau'r Awdurdod**

[Crynodeb: Nododd y Cadeirydd fod tymor dau Aelod yn dod i ben yn y dyfodol agos ac mae'r swyddogion wedi bod yn trafod gyda'r DCMS ers dechrau'r flwyddyn i geisio ailbenodiadau. Hyd yma nid oedd penderfyniad terfynol wedi ei gyfleu gan y Llywodraeth. Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Aelodau cyn gynted ag y bo modd.]

5. **Adolygiad 2017 – Diweddariad**

Cyflwynwyd diweddariad am baratoadau ar gyfer Adolygiad 2017 er gwybodaeth.

Nodwyd y byddai'n bwysig sicrhau adolygydd fydd yn meddu ar ddealltwriaeth am gyd-destun yr iaith Gymraeg yn ogystal â'r cyfryngau darlledu.

[Crynodeb: Roedd HJ yn credu fod gwerth i gynnal adolygiad, a'i fod hefyd yn rhan o'r fargen rhwng DCMS ac S4C. Yn dilyn diddymu'r fformiwla ariannu hanesyddol yn 2011, roedd angen rhoi rhyw broses yn ei le er mwyn cynnig arweiniad a fframwaith ar gyfer penderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â'i ddyletswydd statudol i sicrhau 'ariannu digonol' i S4C yn y dyfodol. Roedd angen i S4C fod yn gwbl glir beth yw'r deilliannau a ddisgwylir.

Cafwyd trafodaeth am gylch gorchwyl presennol S4C a'r angen i gefnogi darparu gwasanaethau digidol tu allan i Gymru a chodi'r cyfyngiadau masnachol presennol. Trafodwyd ystod o ganlyniadau y byddai'n ddymunol eu gweld yn deillio o'r adolygiad]

Penderfynwyd y dylid gofyn i'r Prif Weithredwr reoli'r gwariant a'r adnoddau a neilltuir i baratoi ar gyfer yr Adolygiad.

6. **Adleoli / Canolfan yr Egin – Diweddariad**

Croesawyd GLL i'r cyfarfod a chyflwynodd ddiweddariad parthed y cynllun Adleoli ac adroddiad a baratowyd gan y Cadeirydd ac IHJ.

[Crynodeb: Nododd JD ei fod yn awyddus i'r Pwyllgor Craffu dderbyn adroddiad cynnydd cyffredinol parthed y prosiectau Adleoli a Chydleoli a'i fod hefyd yn dymuno troi ffocws y Pwyllgor tuag at faterion staffio Adleoli, mewn cydweithrediad gyda'r Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydabyddiaeth.

Mewn ymateb i gwestiwn esboniodd GLL y byddai ardal berfformio'r Egin yn cael ei rhedeg gan y Brifysgol.]

Penderfynwyd y dylid cyflwyno crynodeb i'r Awdurdod o'r rhesymau dros adleoli i Gaerfyrddin a'r manteision a ddaw i S4C yn sgil y symud.

Penderfynwyd y dylid cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu ar 6 Hydref, gyda gwahoddiad i holl Aelodau'r Awdurdod.

Bydd disgwyl i agenda'r Pwyllgor gynnwys y materion canlynol:

1. Diweddariad y Cynlluniau Ariannol, gan gynnwys:

- (i) Ystyriaeth o ragamcanion costau diweddaraf S4C;
- (ii) Ystyriaeth o'r Cynllun Busnes dros gyfnod o 10 mlynedd ac 20 mlynedd;
- (iii) Diweddariad parthed cais grant Cyfalaf PDDS; a
- (iv) Diweddariad parthed cynlluniau PDDS ar gyfer cyflawni'u hymrwymiaid ariannol i'r prosiect

2. Craffu Cofrestr Risg y Prosiect Adleoli

3. Materion Staffio, gan gynnwys:

- (i) Diweddariad parthed y Cynlluniau Ail-strwythuro;
- (ii) Diweddariad parthed y Pecynnau Adleoli;
- (iii) Ystyried cynlluniau ar gyfer rheoli'r Broses Adleoli, ac yn benodol cynllunio ar gyfer sicrhau parhad busnes S4C hyd at a dros gyfnod yr Adleoli.

7. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

Proses a Risgiau Adleoli (gan gynnwys Ail-strwythuro)

[Crynodeb: Cyfeiriwyd at Atodlen B2 oedd yn nodi'r prif risgiau. Nodwyd y byddai'r cynllun Ail-strwythuro yn cael ei gyflwyno i'r staff ar 20 Medi.

Ym mis Hydref bydd trafodaethau gydag unigolion sydd â'u swyddi yn symud i Gaerfyrddin. Nododd IHJ y byddai'r broses o drafod gyda'r staff sydd â'u swyddi yn symud i Gaerfyrddin yn para tan fis Mawrth 2017, pryd y byddai disgwyl iddynt roi gwybod i S4C a ydynt yn bwriadu symud i weithio yng Nghaerfyrddin, i dreialu gweithio yng Nghaerfyrddin am gyfnod neu yn bwriadu gadael S4C.]

Diben, Pwrpas a Gwerthoedd Craidd S4C

Cyflwynodd GW ddiweddariad ar y gwaith o adolygu diben a phwrpas S4C. Eglurodd ei fod wedi cynnal nifer o sesiynau gyda staff S4C i drafod diben, pwrpas a gwerthoedd S4C, a bod mewnbyn y staff wedi ei gynnwys yn y ddogfen.

Cafwyd trafodaeth am y ddogfen ac awgrymwyd y dylid cynnwys gyfeiriadau at yr angen i ymddwyn yn gyfrifol gydag arian cyhoeddus a nodi pwysigrwydd y berthynas rhwng S4C a'r sector gynhyrchu.

Cafwyd trafodaeth am ymgynghori gyda'r sector gynhyrchu ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol i drafod y ddogfen gyda nifer o gynrychiolwyr y sector cyn ei gyhoeddi.

Esboniwyd y byddai'r ddogfen yn cael ei chyflwyno i staff presennol ac i staff newydd wrth iddynt ymuno ag S4C a byddai'r ddogfen yn cael ei defnyddio wrth ddatblygu strategaethau S4C.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y ddogfen a gyflwynwyd yn cynnwys Diben, Pwrpas a Gwerthoedd Craidd S4C, gan nodi'r angen i grynhoi'r mynegiant, a chynnwys cyfeiriadau penodol at bwysigrwydd y bartneriaeth greadigol gyda'r cyflenwyr a'r angen i sicrhau stiwardiaeth gyfrifol ar gyfer yr arian cyhoeddus a dderbynnir gan S4C.

8. **Adroddiad Cynnydd Amcanion Gweithredol 2016/17**

Cyflwynwyd yr adroddiad cynnydd hanner blwyddyn, gan nodi mai'r bwriad oedd rhoi diweddariad i'r Awdurdod parthed cynnydd a chyflawniad yr amcanion gweithredol ar gyfer 2016/17.

Cafwyd trafodaeth am y materion canlynol.

Sicrhau uchelfannau penodol yn yr amserlen

Awgrymwyd y dylid ystyried sut i gynllunio uchelfannau ddigon ymlaen llaw a sut i gyflwyno diweddariadau parthed cynlluniau uchelfannau i'r Awdurdod.

Proses Rhag-archebu

Eglurwyd fod y Bwrdd Strategol, gan gynnwys AR, wrthi'n datblygu fframwaith Rhag-Archebu newydd, gyda'r gobaith i'w gyflwyno i'r sector gynhyrchu erbyn y Nadolig. Bydd swyddogion yn cyflwyno asesiad o impact y cynllun arfaethedig i'r Awdurdod ym mis Hydref.

Pryniannau

Nododd IHJ ei fod yn hyderus y byddai S4C yn cyrraedd y nod o 5% erbyn Mawrth 2018. Roedd yn awyddus iawn i barhau i ystyried ehangu'r defnydd o bryniannau, gan anelu i gael hyd at 2 awr o bryniannau yn yr oriau brig dros gyfnod o wythnos, ond gwneud hynny mewn modd synhwyrol gan geisio cyfleu'r cynnwys mewn modd sy'n gydnaws gyda gwasanaeth S4C. Cyfeiriodd at gyfres Arctig Iolo fel enghraifft o hyn.

Cyfryngau Cymdeithasol

Adroddwyd fod cynnydd sylweddol wedi bod o ran rhyngweithio ar rwydweithiau cymdeithasol dros y chwe mis diwethaf, yn arbennig Snapchat a Facebook.

Bas-data

[Crynodeb: Esboniwyd fod y gwaith datblygu ar y cynllun Bas-Data yn parhau. Nodwyd y byddai diweddariadau'n cael eu cyflwyno i'r Awdurdod.]

Diweddariad am y Porth Pobl Ifanc

Esboniwyd fod y cynllun arfaethedig bellach wedi esblygu o fod yn 'Borth' i fod yn gyfuniad o elfennau cynnwys a dulliau defnyddio'r cynnwys ar draws lwyfannau S4C a llwyfannau eraill.

Cyfeiriwyd at fwriadau S4C o ran partneriaethu gyda sefydliadau addysg, a holwyd a oedd ystyriaeth yn cael ei roi i sut y gallai S4C gynorthwyo gyda'r cwricwlwm Cymraeg TGAU a Safon Uwch. Esboniwyd fod trafodaethau ar y gweill gyda CBAC a phartneriaid eraill a gobeithir cyflwyno diweddariad i'r Awdurdod yn fuan.

Cynllun Archifo

[Crynodeb: Eglurwyd fod cynllun ar y gweill ar gyfer archifo cynnwys S4C gyda'r posibilrwydd o gydweithio gyda phartion eraill.]

iStore y BBC

[Crynodeb: Rhoddwyd diweddariad i'r Aelodau ar ddatblygiadau gyda'r BBC parthed mynediad S4C i'r iStore.]

Hyfforddiant

Esboniwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal gyda TAC ar gyfer datblygu cynllun. Nodwyd fod cais wedi'i roi gerbron TAC i gyflwyno cynnig ar hyfforddiant a bod S4C yn dal i ddisgwyl ymateb.

Hawl i fenthyg

Nodwyd nad oedd ymateb terfynol wedi ei dderbyn o ran cais S4C am gadarnhau pwerau benthyg. Roedd trafodaethau gyda DCMS yn parhau, gyda DCMS yn gofyn am ragor o fanylion ariannol er mwyn eu cyflwyno i'r Trysorlys.

Esboniwyd y byddai angen eglurder ar y pwerau benthyg cyn y byddai modd gwneud ymrwymiad cyfreithiol gyda'r BBC parthed y cytundeb gwasanaethau technegol.

'Hirhoedledd'

Cyfeiriodd IHJ at grynoded yn ei adroddiad o'r ystyriaeth sy'n cael ei roi i hirhoedledd cynnwys sy'n cael ei gomisiynu gan S4C.

Polisi caffael darpariaeth Is-deitlo S4C

[Crynodeb: Cyflwynodd RE argymhelliad parthed addasu'r drefn o gaffael is-deitlau Cymraeg a Saesneg.]

Cymeradwywyd yr argymhelliad i ail-strwythuro'r cytundebau is-deitlo a thendro ar gyfer un darparwr Cymraeg ac un Saesneg, gan neilltuo'r arbedion ariannol er mwyn cynyddu'r nifer o oriau o is-deitlau Cymraeg a ddarperir.

9. Trafod Rhaglenni'r mis aeth heibio

Cafwyd trafodaeth am raglenni'r mis aeth heibio.

[Crynodeb: Gwelwyd datblygiadau diddorol yn yr amserlen gyda'r darllediad o gyfres ddrama gada'i gilydd megis *box set* a'r defnydd dychmygus o ddeunydd archif wrth ddarlledu Bois Parc Nest yn arwain at yr Eisteddfod Genedlaethol. Cyfeiriwyd yn benodol at Gyngerdd Aberfan a

recordiwyd yng Nghanolfan y Mileniwm ar gyfer yr Hydref. Y gwaith a gomisiynwyd gan S4C gan Karl Jenkins a Mererid Hopwood i gofio'r trychineb.]

MATERION CHWARTEROL

10. **Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 1 2016-17**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd CE a RE yr Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi a rhoddwyd sylw i'r ffigyrau gwyllo dros y cyfnod a'r patrwm gwyllo rhanbarthol a amlygwyd.]

11. **Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 1 2016-17**

Cyflwynodd GW adroddiad ar weithgareddau'r Adran Gyfathrebu yn ystod Chwarter 1, 2016-17.

Cyfeiriwyd at weithgareddau cyfathrebu yn ystod Eisteddfod yr Urdd a phencampwriaeth Ewro 2016 gan nodi pwysigrwydd y cynlluniau cyfryngau cymdeithasol i'r ddau ddiwyddiad. Esboniwyd fod dadansoddiad o ardrawiad y cynlluniau yn dangos cynnydd sylweddol o ran defnydd ac ymwneud gydag S4C ar draws nifer o lwyfannau ac ymysg nifer o garfanau amrywiol o fewn y gynulleidfa.

Roedd ail-gyflwyno gwasanaeth HD ar Sky a Freesat yn bwysig iawn yn ystod y chwarter o ran hyrwyddo'r ddarpariaeth chwaraeon.

Yn ystod y cyfnod cafwyd nifer o weithgareddau a sioeau megis Sioe Cyw yn Folly Farm a thaith Rimbojam yn y Gogledd mewn cydweithrediad gyda Mentrau Iaith a Chynghorau'r Gogledd.

12. **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio, Rheoli Risg, Personél a Chydnabyddiaeth**

Cyflwynodd HHE gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14.07.16.

Esboniodd fod y Pwyllgor wedi ystyried proses ar gyfer ffurfioli ymsefydlu Aelodau newydd i'r Awdurdod yn dilyn argymhellion yr archwilwyr mewnol, PWC a'u bod yn argymhell i'r Awdurdod i gymeradwyo'r broses newydd.

Cafwyd trafodaeth am yr argymhelliad a chwestiynwyd a oedd perygl y byddai'r broses yn llafurus i'w gweithredu. Cwestiynwyd a fyddai hyn yn ddefnydd da o amser aelodau newydd a swyddogion. Esboniwyd fod y broses yn ymateb i argymhelliad gan yr archwilwyr mewnol yn dilyn eu trafodaethau gydag Aelodau'r Awdurdod. Er mwyn lleihau'r risg o orfod gweithredu proses gymhleth a hir awgrymwyd y gellid mabwysiadu'r broses fel fframwaith enghreifftiol ar gyfer anwytho aelodau newydd gan roi'r hawl i'r Cadeirydd addasu gweithrediad y broses yn amodol ar anghenion aelodau unigol.

Cymeradwywyd y Cynllun Ymsefydlu Aelodau Newydd i'r Awdurdod, gan roi disgrisiwn i'r Cadeirydd i addasu'r broses yn ôl anghenion a dymuniadau Aelodau newydd.

13. **Adroddiad y Wifren**

Cyflwynwyd Adroddiad y Wifren er gwybodaeth.

14. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd yr Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth er gwybodaeth.

[Crynodeb: Roedd S4C wedi derbyn cwyn newydd a chyfeiriwyd yr Aelodau at gynodeb o'r cwyn yn yr adroddiad.]

Unrhyw Fater Arall

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf:

Dydd Iau, 13eg Hydref, 2016